

Gwrando ar bêr gân cantor y Gwanwyn
[Yn: *Cyfaill yr Aelwyd* III, 6, tud. 181 (1883)]

Arolwg y Cyffyllog, 2013

HEFYD YN Y RHIFYN HWN –

- IAITH YR ADAR
- TRO YNG NGHORN GWDDW TYLLUAN
- TEITHIAU'R GWANWYN

A LLAWER, LLAWER MWY!

ER BUDD ADAR A BYD NATUR

Golygyddol

Hen brofiad annifyr ydi cael eich boddi ynde? Ond dyna yn union ddigwyddodd i Rhodri, prif Olygydd *Llygad Barcud* yn ddiweddar. Newid swydd ddechrau Ebrill o adran amaethyddol (Tir Gofal) yr hen Gyngor Cefn Gwlad i fod yn Warden ar Warchodfa Natur Genedlaethol Morfa Harlech sy' o dan ofal y corff newydd Adnoddau Naturiol Cymru (ANC). Hynny'n achosi tipyn o ANCst i Rhodri am y bu pwysau aruthrol arno fo i orffen pob dim cyn gadael yr hen swydd efo Tir Gofal. Ac yna, ar gychwyn y swydd newydd, a bron heb eiliad i gael ei wynt ato, yn cael ei yrru ar gwrs ar ôl cwrs ar ôl cwrs i ymgyfarwyddo efo'r gofynion newydd ac i ennill rhai o'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fedru bwrw ati i'r gwaith yn o sydyn.

Prin ddim amser felly i wneud y petha pwysig fel cael *Llygad Barcud* i drefn. A gwaetha'r modd mi oedd yr is-Olygydd hefyd yn gythreulig o brysur efo pethau ym Mhlas Tan y Bwlch! Diolch i Huw Dafydd a Gareth am roi help llaw ac ymddiheuriadau am yr oedi!

Gweilch

Rydym wedi derbyn cais gan Elfyn Lewis ar ran grŵp Gweilch y Glaslyn: maent yn dymuno i gynrychiolydd o Gymdeithas Ted Breeze Jones ymuno â Bwrdd Cyfarwyddwyr Bywyd Gwylt Glaslyn Wildlife. Gan ddyfynnu Elfyn:

"Cwmni Er Budd y Gymuned yw BGGW sydd wedi cael ei sefydlu i redeg Prosiect Gweilch y Glaslyn. Mi fydd BGGW yn cymeryd drosodd o'r RSPB yn mis Medi eleni. Rydym yn awyddus i nifer o fudiadau natur a chadwriaethol I gyd-weithio er mwyn sicrhau llwyddiant i'r fenter newydd. Os ... oes unrhyw un o aelodau Cymdeithas Ted Breeze Jones a fuasai'n fodlon ymuno â ni ar Fwrdd Cyfarwyddwyr BGGW mi fuaswn yn ddiolchgar iawn clywed. Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyfarfod unwaith y mis ar y funud. 'Da ni'n chwilio am rhywun gyda phrofiad o Brosiect Gweilch y Glaslyn yn benodol neu gyda phrofiad o brosiect tebyg."

Os oes gennych ddiddordeb ewch i gysylltiad efo swyddogion ein Cymdeithas ni ac Elfyn: elfyn@elfyn.orangehome.co.uk . Gallwn ddwad i ddealltwriaeth â'n gilydd wedyn.

Cael blas ar Sbwriela

Roedd yn drueni braidd bod y tywydd wedi amharu ryw chydig ar y cyfarfod yng Nghricieth ar yr 16^{eg} o Fawrth eleni pan aeth criw i hel sbwriel, plastig yn bennaf, oddiar y traeth rhwng y dre a'r Greigddu. Mi oedd rhai wedi cael cymaint o flas ar y gwaith, ac eraill wedi 'difaru cymaint eu bod wedi methu'r cyfle, nes y bu iddynt (Gareth, Gwennan, Haf, Gwen ac Elfyn) ymuno mewn ymgyrch debyg i hel sbwriel o gwmpas Llyn Bach/Cob Crwn, Porthmadog ar y 5^{ed} o Ebrill. Rotari Porthmadog a Chyfeillion Borth-y-Gest oedd wedi trefnu'r sesiwn honno ar y cyd ag Uned Forol Cyngor Gwynedd.

Da ynde? Gwych o beth ydi rhoi rhywbeth yn ôl i'r amgylchedd – mi ydan ni'n ddigon parod i fwynhau a chymryd byd natur a'r amgylchedd yn ganiataol, teg felly ydi gwneud rhywbeth yn ymarferol i'w helpu pan y medrwn.

Cyfranwch i'r wefan : www.cymdeithastedbreezejones.org.uk

LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhif 28 – Gwanwyn 2013

Golygyddion –
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

Cyfranwyr –
Twm Elias, Rhodri Dafydd, Huw Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

Llywyddion Anrhydeddus –
Iolo Williams
Anwen Breeze Jones

Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth –
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–
Rhodri Dafydd, 2 Maes Llydan, Capel Garmon, Llanrwst Conwy LL26 0RN, (01690) 710 312

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch â Brian Paul.

Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.
Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Mawrth os gwelwch yn dda

Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr *Llygad Barcud*. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgysiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)

Cyfranwch i'r wefan a chwiliwch am ôl-rifynnau *Llygad Barcud*:
www.cymdeithastedbreezejones.org.uk

Teithiau'r Gwanwyn 2013

Trefwyd tair taith ar gyfer y gwanwyn ond bu'n rhaid gohirio'r gyntaf, a drefnwyd ar gyfer Ionawr 19^{eg}, ym Malltraeth, oherwydd y tywydd dychrynlyd dros y bwrw Sul hwnnw. Mis yn ddiweddarach, ar Chwefror 16^{eg}, cafwyd taith bleserus iawn yng nghwmni Rhys Gwynn ar hyd Morfa Mawddach ac thrwy y coed ar lethrau'r Fawddach. Ar Fawrth 16^{eg} daeth criw bychan ynghyd ar draeth Cricieth i gasglu sbwriel yn y bore ac i gerdded ar hyd yr arfordir yn y prynhawn.

Taith Y Fawddach



Adlewyrchiad perffaith o Gwm Mynach yn y Fawddach



Pont doll Pwllpenmaen. Oes ganddoch chi c £300,000 i'w phrynu?

Cyfarfod â Rhys Gwynn a Gerwyn Jarret yn y maes parcio ger gwesty'r George ym Mhwllpenmaen am hanner awr wedi deg, ar fore sych, ac adlewyrchiadau bendigedig o fryniau Ardudwy yn y Fawddach. Rhys yn ein tywys i mewn i'r blwch signal ac yn egluro'n fanwl am fywyd gwyllt ar lannau ac yn nyfroedd y Fawddach. Mae'r arddangosfa sydd yn y blwch signal yn awr dan ofal y Parc Cenedlaethol, ac mae yn werth ei gweld. Ychydig o adar a welwyd ar y daith, ond ymhlith y rhai a welwyd oedd y Gwyddau Canada, Hwyaid yr Eithin, Pibyddion Coesgoch a Chreyrod Gleision. Wedi i Rhys sôn am y posibilïadau o godi nyth ar lwyfan, i geisio denu Gwalch y Pysgod i nythu ar y Fawddach, siomedig iawn oedd deall fod y cais cynllunio wedi ei wrthod. Petai pâr o Weilch yn penderfynu nythu a fyddai'n rhaid iddyn' nhw gael hawl

cynllunio? Cafwyd taith wir ddiddorol gyda Rhys yn amlinellu hanes diwydiant ar hyd y Fawddach. Soniodd am yr adeiladu llongau, ac yna waith y llongau bychan yn cario gwlan, rhowliau gwlanen a dillad gwlan i lawr yr afon i'r Bermo, ac oddi yno wedyn mewn llongau mwy i bedwar ban byd; y llongau bychan wedyn yn cario nwyddau cyffredinol ac anghenion amaethyddol, yn cynnwys calch, yn ôl i fyny'r afon.

Heb amheuaeth, uchafbwynt y daith oedd darganfod olion dyfrgi ar ochr yr hen drac rheilffordd. 'Roedd y dyfrgi wedi dringo ar hyd nant fechan allan o'r Fawddach, ac wedi gadael ei faw/baw ar ochr y llwybr. Mae lluniau o'r baw i'w gweld ar safle gwe'r Gymdeithas. (Mae lluniau pob taith wedi ymddangos ar y We ers rhai blynnyddoedd bellach. Gol)

Troi yn ein holau wnaethom ar ôl cerdded i olwg pont rheilffordd y Bermo ar hyd Llwybr y Fawddach., ac yna troi i mewn i'r coed a dringo ychydig drwy'r coes i weld y blychau nythu oedd wedi eu gosod yno. Ymhen rhyw ddau fis eto siawns na fydd gwybedogau brith yn eu meddiannu. 'Roedd y rhodedendron i'w weld yn tyfu yma ac acw, a thybiai Rhys ei bod yn amser i gael gweithyr stâd y Parc yno i glirio'r tyfiant ac i roi sylw i'r llwybrau.

Cyn dychwelyd i lawr at lan yr afon cawsom ddringo allan o'r coed i gopa bryn lle'r oedd golygfa wych i fyny ac i lawr y Fawddach.

Dychwelyd i westy'r George, hebio safle shed trenau'r Cambrian a arferai sefyll yno, a mwynhau paned yn y gwesty ar ôl taith arbennig. Diolch i Rhys a Gerwyn am ein tywys.



Dewi – “Be di’r sŵn 'na d’wad?”
Rhodri – “O, 'mol i 'di hwnna.”



Rhys yn sgwrsio a Gerwyn yn gwranddo a gwyllo yn y blwch signal, sydd yn awr dan ofal y Parc Cenedlaethol



Amser cinio. Bwrdd picnic handi ar Lwybr Mawddach.



Haid o wyddau Canada yn difwyno porfa a mwd y morfa.



Rhys yn bachio baw dwrgi.



Na, ddim rhosyn melyn ond menyng wrach (*Tremella mesenterica*)

Taith Cricieth – Clirio'r Traeth

Efallai ichi gofio inni gael hwyl garw rai blynyddoedd yn ôl yn gwirfoddoli fel Cymdeithas i hel sbwriel oddiar y traeth rhwng Cricieth a'r Greigddu [Ceir adroddiad yn *Llygad Barcud* 16 (2009)]. Penderfynwyd gwneud rhywbeth tebyg ar Fawrth 16eg ond gwaetha'r modd roedd y tywydd o'n herbyn braidd a dim ond pum aelod ddaeth i'r fei.

Treuliwyd y bore yn sbwriela, a llwyddwyd i gasglu deg bag plastig du gyda phlastig yn bennaf a olchwyd i'r lan gan y llanw. 'Roedd ambell aelod wedi cymryd at y teclun a ddefnyddiwyd i godi'r sbwriel, ac yn awyddus i fynd ag o adre efo hi! Digon annifyr oedd y tywydd – cawodydd a gwyntog, ond fe ddaeth pethau'n well ar ôl cinio.

Yn y pwnn dyma fynd i faes parcio gorllewinol Cricieth lle'r oedd degau o hwyaid duon ac ambell hwyaden frongoch i'w gweld ar y môr, aethom ar hyd llwybr yr arfordir ond heb weld unrhyw aderyn i gynhyrfu'r gwaed. Dychelyd i Gricieth ar hyd y traeth a chael paned i gynhesu yng nghaffi Cadwaladr.

[Diolch i Barry Davies a hogia Adran Forwrol, Cyngor Gwynedd am fenthylg yr offer priodol inni at y gwaith – ac am gasglu'r sacheidiau sbwriel ar ôl inni orffen!]

Iaith yr Adar

gan Twm Elias

Yn y gwanwyn fel hyn (dwi'n sgwennu hwn ganol Ebrill) rydan ni'n ymwybodol iawn ac yn edrych ymlaen i glywed caneuon yr adar. *Caneuon*, sylwer, sy'n wahanol i'r galwadau amrywiol wna adar i gysylltu â'i gilydd ac a glywch chi fwy neu lai drwy'r flwyddyn. Mae'n rhyfeddol pa mor fawr ydi'r *repertoire* o wahanol alwadau'r adar – boed yn alwadau cyswllt, yn alwadau rhybudd, dwrdio neu fygwth. Be am y deryn du? – y “TINC! TINC!” bygythiol 'na pan ddaw o ar draws tylluan frech yn llechu yn yr eiddew ac yna'i sgrech ingol o pan gaiff ei erlid ac mewn perygl einioes – bydd y fro gyfan yn gwybod am ei helbul bryd hynny.

Caneuon

Datgan hawliau tiriogaethol adeg y tymor nythu ydi pwrpas cân aderyn fel arfer – er fod y robin goch yn datgan ei hawl dros lecyn o dir yn y gaeaf hefyd. Mae'r iâr a'r ceiliog yn gwneud hyn (mae'r iâr robin yn un o'r chydig ieir-gantorion ym myd yr adar) ac mae clywed cân hanner trist, alto, y robin yn yr hydref – cân sy'n fwy trydarol na cân y gwanwyn – yn un o'r arwyddion cynta bod y gaea ar ei ffordd. Mi glywais un hen wraig o ardal Nefyn rai blynyddoedd yn ôl yn codi ei dwrn ac yn dwrdio'r robin: “cer o'ma 'nei di robin goch efo dy hen gân gaea!”

Prif bwrpas cân y ceiliog yn y gwanwyn ydi:

- 1) rhybuddio ceiliogod eraill bod y diriogaeth nythu yma wedi ei chymryd.
- 2) dennu cymar
- 3) parhau i ddatgan tiriogaeth drwy'r tymor a sicrhau'r iâr ar y nyth fod y ceiliog yn dal i wneud ei job a bod popeth yn iawn.

Ond mi sylwch bod patrwm y canu yn newid drwy'r tymor nythu:

1) y canu yn ei anterth wrth sefydlu tiriogaeth a dennu cymar. Bydd y ceiliog yn aelod selog o 'Gôr y Wig' ar dorriad gwawr ac yn dal ati yn eitha aml drwy weddill y bora, yn llai aml ganol y dydd ac yna ail gydio ynddi at ddiwedd y dydd.

2) unwaith y deora'r cywion mi ddeil ati i ganu gyda'r wawr ond yn llai aml drwy'r dydd am fod y rhienni bellach yn brysur yn magu'r

cywion a gwell peidio tynnu at eu hunnain erbyn hyn.

3) pan fydd y cywion di-brofiad yn gadael y nyth, tâw arni bellach rhag tynnu sylw at y teulu bach. O hyn ymlaen byddant yn symud o gwmpas y goedwig a'r angen am diriogaeth bellach yn llawer llai.

Pawb â'i gân – mae'n debyg bod gan bob rhywogaeth o dderyn ei gân arbenig ei hun, hydnoed os ydi hynny yn ddim mwy na chrawc. Prif bwrpas hynny ydi sicrhau bod yr adar yn medru nabod pwy sy'n aelodau o'r un rhywogaeth a phwy sy' ddim – neu mi fyddai peryg i fwngraleiddio ar raddfa go fawr ddigwydd!

Dynwardwyr – ydach chi wedi meddwl pam bod rhai adar yn ddywardwyr mor dda? Wel, mae'r ateb yn syml – ac yn dwad 'lawr i'r un hen beth eto, sef *sex*, m'wn! Mae ieir rhai mathau o adar yn dueddol o ddewis y ceiliog efo'r amrywiaeth fwya o ganeuon. A'r rheswm am hynny ydi y gall ceiliog gymryd llawer iawn o amser i hel *repertoire* helaeth. Mae ceiliog sy'n gyfoethocach ei gân, felly, yn debygol o fod yn dderyn hyn a mwy profiadol fydd felly efo gwell amcan o sut i oroesi. A dyna mae'r iâr ishio yn hytrach na ryw brentis di-brofiad.



Y fronfaith – pencantores y wig

Galwadau

Mae'r amrywiaeth yng ngalwadau adar pan yn cysylltu â'i gilydd, yn enwedig rhwng aelodau o'r un teulu neu o fewn haid, yn rhyfeddol o fawr a chymleth.

Meddyliwch am adar anghymdeithasol fel y gôg: mor llwm yw ei *repertoire* hi o alwadau, am nad oes eu hangen arni mae'n debyg. Mae hydnoed ei chân y peth symla bosib, sef deunod yr iâr a gyrglian gwyllt y ceiliog.

Cymharwch hynny efo cyfoeth iaith adar cymdeithasol fel brain, gwylogod, gwyfanod, titws, drudwennod piod a phengwins. Ia, welsoch chi'r ffilm "*March of the Penguins*"? – y rhienni yn nabod galwad eu cyw allan o filoedd wedi bod i ffwrdd am fisoedd yn pysgota. A be am deulu o biod yn sgwrsio efo'i gilydd mewn llwyn neu frain pigwen mewn branas – mi allsech daeru mai Sgwrsio go iawn mae nhw.

Hawdd iawn ydi gwahaniaethu rhwng galwadau cyswllt haid o ditws yn pasio drwy frigau'r coed uwch eich pen yn y gaea a'u galwadau rhybudd neu breeder. Un o'r galwadau pryder hawdda i'w nabod ydi un y ~~tshiff-tshaff~~ bach yn y gwanwyn – mae o fel petae on datgan yn bryderus: "o diar, diar, diar, diar".

A phan gewch chi ryw ditw tomos yn eich dwrdio chi o'r gangen, 'dach chi'n gwybod yn iawn eich bod chi'n cael row iawn!ac yn fwy fyth pan gewch chi ryw ddryw bach yn eich rhegi chi o'r llwyn! Pan fydda i'n arwain criw o Saeson ar un o gyrsiau adaryddol Plas Tan y Bwlch mi fyddai'n eu rhybuddio i roi eu dwylo dros eu clustia os down ni ar draws ryw ddryw blin a rheglyd ar y sail ei fod o'n defnyddio "...the most fowl language!"

Enwau dynwaredol

Mae 'na nifer dda o enwau adar yn y Gymraeg, fel ymhob iaith am w'n i, yn dynwared cân neu alwad y deryn dan sylw. *Onomatopoea* ydi'r term technegol am hynny dwi'n meddwl = ail-adrodd neu dynwared.

Dyma rai engreifftau:

Cwccw - deunod adnabyddus y gôg, tan ddiwedd Mai / Mehefin pan mae'n newid i "cwc-cwc-cw".

Titw - yn seiliedig ar elfen gyffredin yng nghân y titw mawr: "ti-tw, ti-tw, ti-tw".

Brân - mae'n dweud ei henw ei hun mewn nodau cras: "braan, braan, braan".

Gwdihw - yr enw yn dynwared chwiban y dylluan frech.

Ji binc – mae adrodd ei henw, "ji-binc" yn elfen bwysig o'i *repertoire*.

Jac-do – mi glywch y "jac" yn gyffredin o ben y to.

Dryw – pan glywch y "drrrrrrr" cyflym o'r llwyn, ia, dryw yw.

Rhegen yr yd / raga ryg – ei "drrr-drrr, drrr-drrr, drrr-drrr" diddiwedd yn sail i'w henw.

Sgrech y coed – a hen "sgreech" gras sy' ganddi hefyd.

Sgrechwiwr – yn hen enw ar y wennol ddu.

Tresglen – fe glywch ei henw yn ei galwad: "trrrrrrrrr".

Drudw – fe glywch y "drrrrrrrr" eto.

Cyrliw – sŵn y "cyr-liw, cyr-liw" y glyfinir uwch y rhos.

Cornchwiglen – "corn-chwig-len" ydi'r galwad ynde?

Cornicyll – enw arall ar y gornchwiglen sy'n dynwared ei sain.

Hen het – trydydd enw dynwaredol yn adleisio rhan o alwad y gornchwiglen.

Turtur – "tur-tur, tur-tur, tur-tur".

Twm-pib – enw o Geredigion ar y bиден fôr ac yn cyfleu sŵn un o'i galwadau: "twm-piib"

Deryn y bwn – y "bwwwn" i'w glywed o'r hesg lle mae'n nythu.

Siff-saff – dyna yw cân y deryn bach yma: "tshiff-tshaff, tshiff-tshaff, tshiff-tshaff", er bod rhai yn mynd: "tshaff-tshiff, thaff-thiff, thaff-tshiff".

Deryn y glaw – yn enw arall ar y paun. Tybir mai galw am y glaw mae y deryn pan mae'r gwaeddi "glaaaw, glaaaw, glaaaw".

Wiparwil – deryn o Ogledd America sy' â'i enw yn dynwared ei gân. Yn adnabyddus i

arloeswyr cynnar yr UDA â'i enw yn gyfarwydd i ni o'r gân werin "Moliannwn".

laith yr adar

Ar un adeg mi fyddai adrodd brawddegau fyddai'n dynwared rhythmau caneuon adar yn boblogaidd. Dyma rai engreifftiau:

Gwylanod – credid yn ardal Corwen (1) y byddai gwylanod fyddai'n hedfan ymhell i'r tir cyn storm yn dweud wrth ei gilydd cyn gadael y traethau:

"Drycin, drycin,
Awn i'r eithin."

A phan fyddai'r storm drosodd yn dweud:

"Hindda, hindda,
Awn i'r morfa."

[*Sylwch bod mwy o gyffro yn rhythm a phwyslais y rhigwm cynta, uchod, a bod yr ail yn fwy hamddenol*]

Sguthan – mae sŵn (yn hytrach na chân!) y sguthan, yn enwedig ei rythm o, wedi tynnu sylw sawl rhigymwr. Yn ardal Hiraethog fe gewch chi hwn, sy'n dynwared sŵn y sguthan yn y tymor hau:

"Dyn du, dyn da,
Hau pys, hau ffa,
Hau ffacbys, i ni fwyta".

Ym Mrycheiniog fe gewch chi:

"Ceirch du, du,
Yn fy nghwd i".

Ac, yn Sir Feirionydd, hwn, sy'n edrych ymlaen at y tymor nythu:

"Yn yr haf, tŷ a wnaaf, gwnaf".

Mae 'na stori ddifyr am y bиден yn ceisio dysgu'r sguthan sut i godi nyth taclus. Ond drwy'r wers doedd yr hen sguth' yn dweud dim byd ond:

"Mi wn! Mi wn! Mi wn!"

Yn y diwedd fe wylltiodd y bиден a d'eud:
"Wel os wyt ti'n gwbod gymaint coda dy nyth

dy hun 'ta!" a ffwrdd a hi! A dyna ichi pam fod nyth sguthan yn fler hyd heddiw, ynde?

Chwiaid

Dyma'r sgwrs glywch chi rhwng marlat neu geiliog chwadan a chriw o ieir chwiaid:

"Cesoch froga, cesoch froga, cesoch froga."

Medd y marlat: "Rho shâr, rho shâr, rho shâr"

A'r ieir efo'i gilydd:

"Un bach, bach, bach! Un bach, bach, bach!"

Gwydda'

Pan yn tresbasu yn y cae yd dyma ddywedan nhw:

Y clagwydd: "Gwela ddyn, gwela ddyn".

Yr wŷydd: "Taw, taw, taw."

A phan ddaw'r ffarmwr a' gi i'w hel o'r cae, mae'r clagwydd yn gwaeddi'n uchel (2):

"Mi wedes! Mi wedes!"

Paun

Enw Cymraeg arall ar y paun ydi deryn y glâw, a'r goel ydi ei fod yn galw am y glâw yn gyson:

"Glâw! Glâw!"

[*Os fedrwch chi ychwanegu at y casgliadau uchod o enwau dynwaredol a iaith yr adar, mi fyddwn yn falch iawn o glywed, Gol.*]

Cyfeiriadau

(1) *Welsh Folk-lore*, Rev. Elias Owen (1888)

(2) *Casgliad o Lên Gwerin Sir Gaerfyrddin, Y Parch. DG Williams, Cyfansoddiadau Eisteddfod Gen. Llanelli (1898)*

Wyddoch chi fod gan Mozart, yn yr 1780^{au}, ddrudwen ddoef, a'i fod o wedi gwirioni fod y deryn yn mēdru chwibannu'r alaw ar gychwyn y Symudiad Ola o'i Goncherto i'r piano yn G-major. Mi ymgorfforodd o sawl darn bach o ganeuon ei ddrudwy ddoef yma ag acw yn ei gerddoriaeth.

Cyfri'r cyfflog

Rhodri Dafydd

Efallai y bydd darllenwyr cyson Llygad Barcud yn cofio i mi dreulio gyda'r nos difyr dros ben yng nghrombil coedydd pîn coedwig Gwydir rai blynyddoedd yn ôl yn gwranddo ar y sŵn go ddiddorol. Ie, cyfflog oedd yno, yn rhodio uwch ei diriogaeth yn y gwyll, a hynny yn gwnud i mi anghofio artaith y gwybed mân. Eleni, byddaf yn mynd allan eto gan obeithio clywed yr un sŵn, y tro hwn i gyfrannu at arolwg y BTO o niferoedd bridio y cyfflog ym Mhrydain.



Welwch chi hi?! Iar cyfflog ar y nyth. (Llun: George H Higginbotham o wefan y BTO)

Gwyddom yn iawn wrth gwrs fod niferoedd yr aderyn hyn yn cynyddu'n aruthrol gyda dyfodiad tywydd oer y gaeaf, wrth i filoedd ar filoedd o adar heidio i'n glannau i osgoi rhewynt Gogledd a Dwyrain Ewrop (daw'r rhan fwyaf o Sgandinafia a gorllewin Rwsia – yn wir amcangyfrifir fod hyd at 1.5 miliwn o adar yn dod ymal). Dont yma er mwyn gallu parhau i fwydo mewn daear laith – gan fod daear galed wedi rhewi'n gorn yn amhosib ei durio a'r big fain.

Gwelwyd y ffenomenon rhyfedd hwn ers canrifoedd lawer, a byddai pobl yn synnu at y cynnydd sydyn yn rhifau'r adar, fel pebaent wedi codi o'r ddaear dros nos; honai eraill eu

bod fel manna yn disgyn o'r nefoedd. Yn wir gelwid y ffrwydriadau yn y boblogaeth yn '*falls*', mae'n debyg, gan i adar syrthio o'r awyr (yn llythrennol mewn ambell achos), wedi ymlâdd yn llwyr ar ôl taith hirfaith dros fôr y gogledd o flaen ffrynt o aer oer. Yn amlwg, byddai helwyr yn manteisio ar y 'cwmpidau' hyn, gan saethu cannoedd o adar ar yr untro os byddai'r amgylchiadau yn iawn.

Mater gwahanol ydi amcangyfrif niferoedd yr adar sy'n aros yma i fagu, gan mai achlysur prin iawn, hyd yn oed i adarwyr profiadol, yw gweld cyfflog heblaw os bydd rhwun yn ddigon ffodus i ddychryn un o'i guddfan ar lawr y goedwig, neu o ymyl y ffordd wrth yrru heibio.

Fodd bynnag, mae un amser o'r flwyddyn pryd gellir mynd ati i geisio canfod yr adar – sef rwan! Yn ystod y gwanwyn, bydd y ceiliogod yn 'rhodio' uwch eu hoff goedydd, gan deyrnasu a'i lordio hi dros eu tiriogaeth yn y gwyll (cyn y wawr ac yn fwy penodol wedi'r machlud). Bryd hynny, gellir gobeithio gweld siap unigryw yr aderyn yn hedfan mewn cylchoedd uwch frig y wig, a chlywed y gân annaearyl os bydd rhywun yn ddigon ffodus.

Cynhaliwyd arolwg pwrpasol yn 2003, pan amcangyfrifwyd, yn dilyn gwaith ymchil penodol iawn, fod tua 78,000 o barau yn magu yma. Golygodd hyn anfon gwirfoddolwyr i sgwariau a ddewiswyd ar hap i gofnodi unrhyw adar a welwyd, cyn defnyddio ystadegau i gyfrifo'r ffigwr – gweler y linc yn y blwch isod am fanylion pellach.



Data o 807 o sgwariau 1km² a arolygwyd yn 2003

Smotiau du: cyfflog yn bresennol yn y sgwar arolwg
Smotiau gwyn: dim cyfflog yn bresennol yn y sgwar arolwg

Amcan arolwg y BTO eleni felly yw ailadrodd yr arolwg hwnnw ddegawd yn ôl er mwyn gweld os bu newid yn eu statws. ac yna ddefnyddio'r ffigyrau i greu darlun o boblogeth frodorol y wlad.

Ar dair noson addas rhwng dechrau Mai a diwedd Mehefin (yn ystod y prif gyfnod rhodio; ymddengys fod y ddefod yn dod i ben yn ddisymwth wedi dydd Gŵyl Ifan) rhaid fydd eistedd mewn mangre addas am chwarter awr cyn machlud ac awr wedi i'r haul diflannu dros y gorwel, a chyfri pob aderyn a glywir ac/neu a welir, gan nodi'r amser yn fanwl. Bydd gwyddonwyr profiadol y BTO yn bwydo'r ystaegau i fodel mathemategol i roi ffigwr newydd – sef amcan o boblogaeth y cyfflog ym Mhrydain yn 2013.


Gobeithir yn fawr na fydd y canlyniadau yn siomedig, gan adlewyrchu'r duedd a welwyd yn yr ymchwil ar gyfer atlas adar 2007-2011 – sef gostyngiad sylweddol yn niferoedd yr adar ymhob cwr o'r wlad ers yr Atlas flaenorol, 1968-1972 (gweler y map isod).

Swnio'n ddigon hawdd felly – gan obeithio am nosweithiau llonydd braf (a di-wybed), dros yr ychydig nosweithiau nesaf a chawn weld sut hwyl gaf arni!

Wyddech chi...

...fod iar cyfflog yn gallu cario cywion o'r nyth rhwng ei choesau a'i chynffon i osgoi perygl?

...nad yw'r cyfflog yn hoff o gerdded dros frigau a changhennau wedi cwmpo ar lawr y goedwig? Gwell ganddo gerdded o'u hamgylch. (Yn anffodus manteisiodd nifer o helwyr ar hyn, gan ddefnyddio'r duedd hon i'w harwain yn uniongyrchol i'w trapiau).



Newidiadau yn niferoedd y cyfflog rhwng 1968-1972 a 2007-2011 yn ôl Atlas Adar y BTO

Triogl ar i fyny – Cynnydd, triogl ar i lawr – gostyngiad.

Cyfeiriadau ar gyfer yr erthygl hon: Gwefan y BTO, *Birds Britannica* (Cocker a Mabey, 200pump)

Y Cyfflog ei hun.

Aderyn a gysylltir a choetir yw'r cyfflog ar y cyfan ac, er mewn ardaloedd yn yr ucheldir y ceir cofnodion ohonynt ar dir mwy agored, bydd y ganran o goed yn eu diriogaeth yn hanfodol. Fel rheol mewn coedwigoedd mawr, eang y byddant yn magu, ac mae tystiolaeth i awgrymu nad ydynt yn defnyddio coedwigoedd o lai na 10 hectar i fagu ynddynt ym Mhrydain.

Nodwedd pennaf y cyfflog yw ei guddliw arbennig – caiff ei gydnabod fel un o'r cuddliwiau gorau ym myd natur. Mae'r lliwiau a'r siapiau cryptig a grëir gan batrymau'r plu yn cynorthwyo'r aderyn i ymdoddi'n llwyr i lawr y goedwig, ac mae hyn, ynghyd â greddf yr aderyn i swatio mor llonydd ag sy'n bosib, yn gwneud yr aderyn yn anweladwy, fwy na heb, ymhlith dail a brigau crin llawr y wig.

Wyddech chi...

... y defnyddid pluen 'pin' y cyfflog i baentio y streipen aur ar hyd ochr ceir 'Rolls Royce'?

...mai'r cyfflog ('woodcock' yn saesneg wrth gwrs) yw tarddiad nifer o enwau llefydd yn Lloegr, a hyd yn oed y 'Cocker' spaniel fel ci hela?

...yr ystyrir y cyfflog drwy'r oesoedd fel danteithfwyd, a fod paratoi cyfflog rhost yn arfer arbennig yn ystod y gaeaf?

RANT WLEIDYDDOL Y RHIFYN: O ystyrir y ffaith olaf – onid peth chwithig yw i ni yma gondemnio saethwyr yn Malta a gwledydd cyffelyb am saethu ein hadar mudol 'ni' ar eu taith i'r de, ond eto ein bod ni (yn y wlad 'wareiddiedig' hon) yn saethu adar tramor sy'n gaeafu yma (yn ein coedyd ac ar ein haberoedd) – a fod hynny yn cael ei ystried yn dderbyniol?!

'Hawliau traddodiadol' ebe rhai...

...truan o'r adar diniwed ddyweda i.



Llun: Herbert & Howell (o wefan y BTO)

Gyda'i big hir, ei dalcen serth a'i lygaid fel aeron duon yn uchel yn ei ben, mae'n aderyn unigryw heb os nac oni bai, a'i arfer o symud ei gorff o ochr i ochr (tra'n cadw'r pen yn hollol llonydd) wrth fwydo yn ymddygiad y caiff ychydig iawn ohonom ei weld yn ystod ein bywydau oherwydd ei natur gyfinachol. Am druenil

Yn wir, i'r mwyafrif ohonom, cipolwg wrth i aderyn godi yn chwim o'r ddaear wedi i rywun bron a sefyll ar un fydd y cyntaf a'r olaf a welir o'r aderyn, cyn iddo ddiflannu drwy frigau'r coed. Does dim syndod yr ystyrir bod medru saethu cyfflog yn sgil a hanner!.

Am fwy o wybodaeth am arolwg eleni ac i fachu sgwâr ewch i:

<http://www.bto.org/volunteer-surveys/woodcock-survey>

I weld canfyddiadau arolwg 2003 darllenwch :

Densities and population estimates of breeding Eurasian Woodcock *Scolopax rusticola* in Britain in 2003 gan ANDREW N. HOODLESS , DEBORAH LANG , NICHOLAS J. AEBISCHER , ROBERT J. FULLER a JULIE A. EWALD yn *Bird Study* (2009) 56, 15–25

Gellir gweld yr erthygl ar wefan y BTO:

<http://www.bto.org/sites/default/files/u203/downloads/BS-2009-v56-15-25-Hoodless.pdf>



Pa Aderyn?

gan Huw Dafydd

Petaech yn clywed y gair ‘*aderyn*’, pa aderyn ddeuai i lygad eich meddwl? Deryn du? Y robin goch? neu, efallai, yr eryr? I’r rhai hynny sy’n ymddiddori ym myd yr adar mae’n debyg fod sawl aderyn yn ymddangos, yn sicr nid ar yr un pryd, ond mewn cyfres sydyn o ddelweddau, un ar ôl y llall. Petai rhywun yn gofyn i chwi enwi’r *aderyn* cyntaf a ddeuai i’ch meddwl, tybed a fyddai’r ateb yr un bob tro? Yn sicr mae llawer o ffactorau’n dylanwadu. Pa aderyn fyddai’r cyntaf i geidwad estrys mewn parc neu sŵ ei enwi? Pa aderyn fyddai’r cyntaf i rasiwr colomennod ei enwi? Pa aderyn fyddai’r cyntaf i hebogwr ei enwi? A pha aderyn fyddai’r cyntaf i rywun fel Emyr Evans, Alwyn Evans neu Geraint Williams ei enwi? Y gwir yw fod gan bob un ohonom ei hoff aderyn, a diolch byth fod yna ddigon ohonynt er mwyn i bob un ohonom fodloni ei hun yn ei ddewis/dewis.

Mae niferoedd yr adar yn ein byd yn anferthol. ‘Does neb a wŷyr yn union faint, ond mae’n siŵr fod y cyfiri’ yn filoedd o filiynau. Gallwn ddweud i sicrwydd ei bod yn llawer haws gweld aderyn nag yw i weld unrhyw anifail gwaed cynnes arall. Credir fod tua deng mil o wahanol rywogaethau o’r ‘anifail’ pluog, a thybir bod, mewn rhannau anghysbell iawn o’n byd, adar eto i’w darganfod a’u gosod mewn dosbarth a theulu neu is-deulu. Mae dros 500 o wahanol fathau o adar ar y rhestr ‘Brydeinig’, gydag oddeutu 200 yn nythu yn ein gwledydd. Mae’r niferoedd yma’n syfrdanol o ystyried hinsawdd, arwynebedd tirwedd a dwysedd poblogaeth Ynysoedd Prydain.

Cwestiwn arall yr hoffwn ei ofyn yw, sut y cychwynnodd eich diddordeb mewn adar ac adarydda? Yn ddiweddar mae byd natur wedi dod yn ddiddordeb poblogaidd ac mae gwarchodaeth byd natur wedi datblygu i fod yn ffactor bwysig iawn ym mlaenoriaethau y rhan fwyaf o unigolion. Gwelwyd newid mewn agweddau pobl tuag at natur ar ôl yr ail ryfel byd am nifer

o resymau. Fe sefydlwyd Parciau Cenedlaethol a daeth teithio i ymweld â hwy yn fwy hwylus, cyflwynwyd agweddau am fyd yr adar a bywyd gwylt yn gyffredinol ar raglenni radio a theledu, a daeth mwy o amser hamdden â’r cyfle i unigolion ymgymryd â diddordebau gwahanol. Wedi’r rhyfel hefyd, cafwyd cynnydd mewn argraffu llyfrau, a chafwyd am y tro cyntaf llyfrau natur a oedd yn cynnwys lluniau lliw. Erbyn heddiw mae rhaglenni natur megis cyfresi David Attenborough yn caniatáu i ni ymweld â llefydd na allem ond breuddwydio amdanynt, gan ein hebrwng i guddfannau dirgel ac at gyfrinachau anhygoel a rhyfeddol byd natur. Pwy na welodd ac na ryfeddodd at y ffilm a dynnwyd yn un o’r cyfresi, yn dangos yr Orca, y morfil du a gwyn hwnnw yn nofio i’r lan ac yn ymosod ar forlo oedd yn torheulo ar draeth yn ne America.

Un o’r llyfrau cynharaf hynny, y mae’r rhan fwyaf ohonom sy’n nesu at oed pensiwn yn ei gofio, yw’r *The Observer Book of Birds*. Mae f’un i yn dal gen i,

gyda'r enw Cymraeg am bob aderyn mewn llawysgrifen ar bob tudalen. 'Roedd y gyfres hon o lyfrau poced bychan yn cynnwys gwybodaeth a lluniau am ymron i bob maes ym myd natur, yn ogystal â meysydd eraill o ddiddordeb. Yn y gair 'Observer' mi dybiaf y mae cyfrinach y gyfres hon, a gellid defnyddio'r llyfr allan ar daith yn yr awyr agored i adnabod aderyn neu unrhyw wrthrych arall oedd yn ymddangos yn un o'r llyfrau. Nid oes neb yn dysgu heb iddynt arsylwi. Gallwn ddysgu'r enwau, y lliwiau, y meintiau a'r ffurfiau o'r llyfrau, ond wrth arsylwi, a hynny gyda chyfeillion y daw'r wybodaeth yn 'fyw'.

I ddychwelyd at y cwestiwn uchod (sut y cychwynnodd ddiddordeb unrhyw un ym myd natur) tybiaf y byddai'n wir dweud fod *rhywun* neu *rywrai* wedi dylanwadu arnom, drwy feithrin y diddordeb. Athro Bywydeg yr ysgol fu'r sbardun ac a fu'n cymell fy niddordeb i, a chofiaf yn dda deithiau yn ei gwmni ef a chyd ddisgyblion ar hyd a lled Eryri yn chwilio am wahanol adar. Ar un o'r teithiau hynny ym 1963 y gwelais gyntaf ddurtur dorchog. Ar dro arall, ym Mhenmon, gyda'r diweddar Sion Pys, ffrind ysgol annwyl iawn i mi, y gwelais Wylog Ddu. 'Rwyn dal i weld y clytiau gwynion ar yr adenydd wrth iddi hedfan dros y tonnau. Ond, 'doedd neb yn credo – roeddem wedi gwneud camgymeriad yn ôl ein hathro Bywydeg. Ond *fe'i* gwelsom. Bellach, mae heidiau o wylwyr yn cyrchu harbwr Caergybi i weld y pâr sy'n nythu yno. Tybed ble arall maent yn nythu?

Wedi bod yn aelod o Gymdeithas Ted ers nifer o flynyddoedd bellach, mae fy ngwybodaeth am fyfyr yr adar yn sicr wedi ehangu ac wedi ei chyfoethogi. Hynny'n bennaf, mi dybiaf, oherwydd y gwmniaeth a'r sgwrsio. Mae'n wir i Ted ei hun gael dylanwad mawr ar nifer o

aelodau hŷn y Gymdeithas drwy gyswllt personol. Oherwydd ei luniau yn ei gyhoeddiadau niferus, mae ei ddylanwad ar eraill hefyd na chafodd y fraint o'i gyfarfod. Heddiw mae ffotograffiaeth wedi newid y tu hwnt i ddychymyg unrhyw un, ond mae'n sicr y byddai Ted wedi estyn ei freichiau a rhoi croeso cynnes iawn i'r dechnoleg ddigidol newydd.

Fel y gŵyr llawer ohonoch sydd wedi bod ar deithiau gyda'r Gymdeithas, 'rwyf innau wedi ceisio mabwysiadu'r dechnoleg newydd gan geisio tynnu lluniau â'r hyn a elwir yn *digiscoping*. Mentraf gynnig y gair digisgopio yn y Gymraeg am y broses hon o osod camera i edrych drwy'r telesgôp a thynnu llun y ddelwedd a welir.

Dros y blynyddoedd cadwyd cofnod o'r teithiau a wnaed gyda Chymdeithas Ted, a gellir gweld lluniau teithiau diweddaraf y Gymdeithas ar safle we'r Gymdeithas. Mae'r gwaith yma dan ofal Gareth Jones. Yn dilyn, fe ddangosir rhai o'r adar y llwyddwyd i dynnu lluniau ohonynt drwy'r digisgôp.

A fy hoff aderyn? Dyfalwch!

[Mae Huw wedi gaddo gwobr hael am y dyfaliad cywir. Gol.]



Creyr gwyrdd, Pentraeth



Morwenol bigddu, Cemlyn



Drudwy Wridog Dyffryn



Gwylogod duon, Caergybi



Pibydd du, Cemlyn



Yr wylan Chwerthinog, Porthmadog

Torri nythod adar

Mae sawl rhigwm i'w gael ar lafar gwlad yn atgoffa rhywun i beidio ag amharu ar nythod adar bach. Dyma rai [o *Casgliad o Lên Gwerin Sir Gaerfyrddin*, DG Williams, Ferndale (1895)]:

Pwy bynnag dorro nyth y gochgam*,
Ni wel byth wyneb 'i fam.

Pwy bynnag dorro nyth y dryw,
Ni wel byth mo wyneb Duw.

Pwy bynnag dorro nyth y binc,
Caiff ei grogi wrth y linc.

Pwy bynnag dorro nyth y wennol,
Chaiff e byth fynd i'r nefoedd.

* y gochgam = robin goch

Tro yn y Corn Gwddw



Sganio gwddw tylluan

Mi all tylluan droi ei phen rownd 270° heb iddi dagu ei hun na chwaith gau'r cyflenwad gwaed i'w phen a disgyn mewn llewyg oddiar y gangen! Sut, tybed, mae hi'n llwyddo i wneud hynny?

Mae hwn yn hen gwestiwn ond, o'r diwedd, yn dilyn ymchwil yn ddiweddar yn America mi ddaeth yr ateb. Yn ôl Dr Philippe Gaillourd o'r Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol John Hopkins mae gan adar yn gyffredinol yddfau hynod o hyblyg ond ymysg y tylluanod y gwelwn ni'r ddawn honno ar ei gorau. Addasiad ydi hyn i'r ffaith bod ystod yr hyn mae tylluanod yn ei weld o'u blaenau yn eitha cyfyng – 'golwg twnnel' i raddau. Felly i weld i'r ochr, mi fydd raid troi'r pen yn hytrach na symud y llygaid.

Am fod tylluanod yn dibynnu ar aros yn hollol lonydd am gyfnodau hir (wrth hela yn y nos ac i osgoi tynu sylw adar eraill yn y dydd) mae'r gallu i fedru troi y pen rownd heb symud gweddill y corff yn ddefnyddiol iawn. Mae'r ffaith bod y pen yn grwn ac ar wddw byr hefyd yn ei gwneud yn anoddach i brae neu elyn sylwi ar ei symudiad.

Ond be ydi'r tric i'w galluogi i droi'r pen cyn belled rownd? I ddechrau, mae ganddi 14 asgwrn yn ei gwddw o'i gymharu â 7 gennym ni. Ond y peth pwysica' ydi y ffordd mae'r pibellau sy'n cario gwaed o'i chorff i'w phen wedi eu gosod.

Mae ei rhydwelïau carotid mawr, yn hytrach na

rhedeg y naill ochr i'r gwddw, fel mewn anifeiliaid, yn gorwedd bron yn y canol, jyst o flaen yr asgwrn cefn. Golyga hyn nad ydyn nhw'n cael eu gorymestyn na'u troelli cymaint pan mae'r pen yn troi.

Mae gan adar eraill drefn debyg, ond yr hyn sy'n gwneud y tylluanod yn unigryw ydi'r modd y mae'r pibellau gwaed bychain wedi eu gosod i fwydo esgyrn y gwddw a llinyn y cefn. Twnnel bychan drwy bob un o'r fertebra gewch chi fel arfer mewn anifeiliaid ac adar eraill ond yn y tylluanod mae'r twneli hyn tua 10 gwaith yn fwy gyda'r llefydd gwag wedi eu llenwi â sachau gwynt. Pwrpas y rhain ydi rhoi mwy o le i'r pibellau gwaed ac i weithio fel clustogau pan mae'r gwddw'n troi.

Nodwedd arall yw bod chwydd yn nwy bibell y carotid o dan y penglog. Pwrpas hyn, mae'n debyg, ydi creu cronfa gyfleus o waed llawn ocsigen yn agos i'r ymenydd rhag ofn y bydd ei angen petae'r dylluan yn dal ei phen ar ei dro eithaf yn rhy hir ac i ocsigen fynd yn brin. Bryd hynny, petae hi'n dechrau teimlo'n benysgafn, mi all droi ei phen rownd i'r cyfeiriad arall i leihau'r straen. Ia, tipyn o wyrth ydi gwddw gwddihw.

[Addasiad o stori yn : www.bbc.co.uk/news/science-environment-21279609]

Ble'r aeth y Ji-binc?

Efallai, byddai'r ateb i ymholiad a gafwyd dros y wefan gan Sian Cwper, ynglŷn â diflaniad neu leihad yn niferoedd y ji binc neu'r asgell arian a arferai ymddangos ar ei bwrdd adar o ddiddordeb cyffredinol i ddarllenwyr Llygad Barcud. Dyma'r ymholiad:-

"Tydw i ddim wedi gweld yr un ji-binc eleni. Mae fy mwrdd adar newydd yn ymyl fy ffenestr ers y 'Dolig, a felly 'dw i'n sylwi beth sy'n digwydd yn fwy nag y byddwn i. Fel rheol mae 'na domennydd ohonyn nhw wedi bod, a 'dw i'n poeni'n fawr yn eu cylch nhw. Ydyn nhw'n fwy swil nag adar eraill? 'Tydw i ddim yn cofio i mi weld rhai ddiwedd 2012 wrth yr hen fwrdd chwaith."
Siân Cwper.

Annwyl Sian,
Diolch am eich ymholiad am y ji binc. Mae'n bleser gennyf gynnig y sylwadau canlynol i chi.

Fel y rhan fwyaf o'r adar sy'n ymweld â'n byrddau adar yn ystod y gaeaf, mae'r ji binciaid yn gymysgedd o'r rhai sydd yma drwy'r flwyddyn â'r rhai sy'n ymfudo i Gymru o rannau eraill o Ewrop sy'n llai ffafriol iddynt dros y misoedd oer. Yn gyffredinol mae niferoedd y ji binc eleni yn ddigon tebyg i'r hyn a fuont y llynedd a'r flwyddyn cynt.



Ji-binc yn crffu am friwsionyn

Yn sicr mae niferoedd rhai adar megis y llinos werdd (greenfinch) wedi gostwng yn llawer mwy syfrdanol. Mae'n bosibl fod sawl rheswm yn gyfrifol am y lleihad yr ydych wedi sylwi arno eleni.

Yn gyntaf, lleoliad newydd eich bwrdd adar. Mae'r adar yn teimlo ansicrwydd wrth ymweld â'r bwrdd yn ei leoliad newydd, (pellter o goed a diogelwch llwyni) a hefyd am fod symudiadau unigolion y tu mewn i'r ty yn eu dychryn. Mae'n debyg nad yw hyn yn ffactor os oes adar eraill fel y titwod yn dal i fwydo ar y bwrdd newydd.

Yn ail, gan fod y gaeaf wedi bod yn eitha mwyn, hyd yn hyn, mae bwyd wedi bod ar gael mewn mannau eraill. (*Derbyniwyd yr ymholiad cyn y cyfnod o rew ac eira. Gol.*)

Awgrymaf yn y lle cyntaf eich bod yn ystyried symud y bwrdd adar yn agosach at ei leoliad blaenorol, i ffwrdd oddi wrth adlewyrchiad y ffenestr. Fel y bydd y tywydd yn oeri a bwyd naturiol yn prinhaus, parhewch i fwydo'r adar, ac yna cawn obeithio'n wir y gwelwch y ji binc yn dychwelyd.

Mae sawl adroddiad yn dod i law yn dweud fod niferoedd y ji binc mewn gwahanol rannau o Gymru wedi cynyddu ar ol y cyfnod oer diweddar. Adar tramor, mudol, (o'r gogledd a'r dwyrain). sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn er nad yw'r cynnydd mor niferus ag y bu yn y gorffennol.

Y rheswm amlycaf am y lleihad, mae'n debyg, yw fod y clwy' sydd wedi taro'r llinos werdd hefyd wedi taro y ji binciaid yn eich lleoliad chi.. Yr enw a roddir ar y clwy' marwol hwn yw *trichomonosis*. Mae'r clwy yn un trychinebus gyda chyflwr plu yr adar yn ddi-raen a chyda doluriau ar eu pigau a thyfiant ar eu traed a'u coesau. Ymddangosodd y clwy yn gyntaf yn 2005 ac mae wedi golygu gostyngiadau sylweddol mewn poblogaethau'r ji binc mewn rhannau o'r wlad. Mae'n ymddangos bod eich ardal chwi yn un o'r ardaloedd hyn. Mae adar clwyfus o Brydain wedi cario'r clwy i Lychlyn hefyd wrth iddynt ymfudo'n ôl yno yn yr haf.

Er hyn, rhaid cofio fod byd natur yn hynod pan ystyrir parhad rhywiogaethau. O wybod bod yr adar cryfaf ac iachaf, sydd wedi medru gwrthsefyll y clwy ofnadwy yma, yn dal i fod yma gyda ni, bydd y niferoedd yn siwr o gynyddu eto.

Gobeithio fod yr ychydig sylwadau hyn o gymorth i egluro'r sefyllfa i chwi, a diolch i chwi am eich ymholiad, Efallai yr hoffech

ymchwilio ymhellach – ceir mwy o wybodaeth ar wefan y BTO:

<http://www.bto.org/volunteer-surveys/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/disease/trichomonosis>

Huw Dafydd, (ar ran y Gymdeithas)



Llinos werdd yn diode o'r clwy *Trichomonosis*

Cofio'r adar

Dyma gerdd hyfryd a ymddangosodd yn Yr Herald Gymraeg (sy'n atodiad wythnosol i'r *Dail y Post*) yn ddiweddar ac sy'n llwyddo i ddal peth o ramant y Gwanwyn:

Dau robin goch a dau ddryw bach
Yn snelcian yn y llwyn
Aderyn du a bronfraith hard
Yn arllwys cân llawn swyn.
Daeth asgell arian ar ei hynt
A nico dela erioed
A titw bach a titw mawr
Yn dawnsio ar ysgafn droed.
Ac yna daw hen fran fawr ddu
A dau neu dri jac-do
Y deryn to a'r wennol fwyn
A ddaethant yn eu tro.
Yn sydyn clywais ddeunod llon
Yn atsain tros y ddôl
A llamu wnaeth fy nghalon
Y gôg a ddaeth yn ôl.

Mary Evans, *Llangefni*

A dyma ichi rigwm o ardal i groesawu'r Gwanwyn. Daw hwn o ardal Penegoes, ger Machynlleth:

Y cyrliw a gana
A chrec y broga,
Wŷ gŵydd,
Twill din y Gaeaf.

Llongyfarchiadau calonnog i Peter Hope Jones

Roeddem yn falch iawn o glywed bod Peter Hope Jones, o Borthaethwy, wedi cael ei anrhydeddu gan Gymdeithas Adaryddol Cymru gyda thlws arbennig am Oes o Gyfraniad i'r maes adaryddol.



Y wobwr yn cael ei chyflwyno i Peter gan lolo

Magwyd Peter ym Mhrestatyn ac aeth i Brifysgol Cymru, Bangor i astudio coedwigaeth. Ymunodd efo grŵp adar y Coleg a bu'n weithgar efo'r cyfrifon misol o adar y glannau. Wedi hynny cafodd swydd yng Ngwylfa Adar Fair Isle cyn dychwelyd i Gymru yn y 1960^{au}, yn gyntaf fel warden i'r hen Gyngor Gwarchod Natur yn Nhwyni Niwbwrch ac yna i ofalu am naw Gwarchodfa Genedlaethol ym Meirionnydd. Cydweithiodd efo Ted Breeze Jones i gyhoeddi *Rhestr o Adar Cymru* (1973) ac yna *Birds of Meirioneth* (1974) a *Birds of Caernarvonshire* (1976).

Yn y 1970^{au} canolbwyntiodd ar adar y môr ac, yn dilyn trychinebau llygredd olew yr *Amoco Cadiz* yn Llydaw a'r *Christos Bitas* ym Mhenfro, dyfeisiodd Peter ddull o drin data sydd wedi dwad yn safonol hyd heddiw mewn achosion o'r fath.

Dychwelodd Peter i Fôn yn 1983 a bu eto yn gweithio ar adar y môr ac yna ar y grugiar ddu i RSPB Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Roedd yn ymwelydd cyson ag Enlli a chyhoeddodd *The Natural History of Bardsey* (1988) a *The Birds of Anglesey / Adar Môn* (2004).

Bu ei waith arloesol yn monitro adar ymfudol ar draws Môr y Gogledd yn y 1980^{au} o'r llwyfannau olew yn gyfraniad pwysig arall.

Llongyfarchion Peter – ti'n llwyr haeddu'r wobwr.

Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Mai – Hydref 2013

Dydd Sadwrn, Mai 18^{fed}

Taith: Cwm Bowydd a Choed Cymerau, dan arweiniad Dewi, Gareth a Gwennan (oll yn Jonesiaid)

Cyfarfod 10.30y.b. : yn y Maes Parcio ger Coed Cymerau, 'Stiniog (SH694432)

Dydd Sadwrn, Mehefin 1^{af}

Taith: Coed Llety Walter a Chwm Nantcol, dan arweiniad Rhodri a Huw Dafydd

Cyfarfod 10.30y.b. : y *tu allan* i'r Fic, Llanbedr, Harlech (SH585269)

Dydd Sadwrn, Mehefin 22^{ain}

Taith: Pistyll a Nant Gwrtheyrn, dan arweiniad Twm Elias

Cyfarfod 10.30y.b. : yn y Maes Parcio newydd uwchlaw Eglwys Pistyll (SH329423)

Cofiwch hefyd am:

Y Gynhadledd Flynyddol, a gynhelir ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog
Hydref 19^{eg} (rhowch y dyddiad ar eich calendr *rwan*)

*Cerwch i'r wefan am fwy o wybodaeth am y Gymdeithas, liuniau yn yr Oriel
a holl ôl-rifynnau Llygad Barcud:*

www.cymdeithastedbreezejones.org.uk



Plas Tan y Bwlch

Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri

Pob llwyddiant i

Gymdeithas Ted Breeze Jones

ac i

LLYGAD BARCUD

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600